Offeryn 4 plws 1

Beth rydyn ni wedi rhoi cynnig arno?	**Beth rydyn ni wedi'i ddysgu?**
• Caiff Priya adael yr ystafell am 'amser ymdawelu' yn ôl yr angen. Nid oes rhaid iddi ofyn am ganiatâd i wneud hyn, ac fel rhan o'r cytundeb, mae Priya yn gallu mynd am dro byr. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddi ddychwelyd ar ôl 10 munud. • Trefnu bod Priya yn eistedd yng nghefn yr ystafell wrth ymyl ffenestr er mwyn iddi wneud ei hymarferion anadlu neu sefyll pan fydd hi'n teimlo'n bryderus, heb dynnu sylw ati hi ei hun.	• Mae Priya wedi bod yn defnyddio'r cynnig 'amser ymdawelu', ac mae hi'n aros i siarad ag aelodau staff ar ddiwedd y sesiwn yn aml, gan deimlo bod hyn yn rhoi cysur iddi. O ganlyniad, mae Priya yn cyrraedd ei gweithgaredd nesaf yn hwyr weithiau ac yn colli dysgu ychwanegol.
Beth sydd wedi ein plesio?	**Beth sydd yn ein poeni?**
• Mae Priya yn mynychu yn amlach ac yn aros am ddiwrnodau llawn. • Mae hi'n cyfathrebu mwy ag aelodau staff.	• Mae hi'n colli amser dysgu yn rheolaidd ac nid oes ganddi'r gallu i ddal i fyny.

Beth sydd angen i ni ei wneud nesaf?

Cynnwys rhagor o sgiliau ymdopi yn ei chynllun, gan gynnwys ymarfer siarad â'i hun mewn ffordd gadarnhaol (i'w ddatblygu yn ei sesiwn gwnsela wythnosol), a threfnu 'sgwrs' ychwanegol gydag aelod o staff cyn cinio (Mrs Jones) er mwyn i Priya gael cymorth gan oedolyn yn unol â'i dymuniad.

Ar ôl ychydig wythnosau o ymgorffori'r cymorth newydd hwn, y bwriad yw iddo ddisodli'r trefniant lle mae Priya yn aros ar ôl pob gwers (Mrs Jones i roi gwybod i'r staff am hyn).